# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2015

Amser: 09.03 - 12.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3261

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Russell George AC<br>Sandy Mewies AC (yn lle Jeff Cuthbert AC)<br>Llyr Gruffydd AC<br>Janet Haworth AC<br>Julie Morgan AC<br>William Powell AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol<br>Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br><br>Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br><br>SeatonN (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jeff Cuthbert. Sandy Mewis yn bresennol fel dirprwyon.

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol: Gweinidog Cyfoeth Naturiol

2.1 Ymatebodd y Gweinidog a swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- **Caniatâd ynni:** Nodyn ar y rhesymeg ar gyfer y terfyn 350MW ar gyfer datganoli pwerau caniatâd ynni yn y dyfodol.
- **Cynllunio morol:** Nodyn ar gyfarwyddeb cynllunio morol newydd y Comisiwn Ewropeaidd.
- **Ansawdd dŵr:** Y meini prawf ar gyfer asesu a oes gan gorff o ddŵr 'statws ecolegol da'.
- **Ansawdd dŵr:** Darparu cymhariaeth o'r ffigur o 42 y cant ar gyfer cyrff o ddŵr yng Nghymru sy'n sicrhau statws ecolegol da gyda chanran y cyrff o ddŵr mewn gwledydd eraill yn y DU a rhannau eraill o'r UE sy'n sicrhau statws ecolegol da.
- **Adolygiad Arfordirol Cyfoeth Naturiol Cymru:** Manylion am y cynnydd yn gweithredu'r saith argymhelliad na chânt eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys amserlen ar gyfer cwblhau'r argymhellion hyn.

## 3 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

**3.1 Datgan buddiannau:** Nododd William Powell ei fod yn bartner mewn busnes fferm sy'n cael taliadau o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ac mae'n aelod o Glastir Uwch.

3.2 Ymatebodd y Dirprwy Weinidog a swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r canlynol:

- **Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru:** Darparu manylion am gylch gorchwyl y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru, unwaith y byddant ar gael.

- **Adolygiad annibynnol o Glastir Uwch:** Nodyn ar y cynnydd mewn perthynas â'r 10 argymhelliad a wnaed yn dilyn y gwerthusiad annibynnol o Glastir Uwch.

- **Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014**: Nodyn ar effaith y Ddeddf Rheoli Ceffylau ar les ceffylau.

- **Lles anifeiliaid:** Cadarnhau nifer y carcasau moch daear y cafodd Llywodraeth Cymru wybod amdanynt mewn ymateb i'w harolwg o foch daear marw a nifer y moch daear sydd â thwbercwlosis, unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

4.1 Organebau a Addaswyd yn Enetig: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Iechyd

4.2 Organebau a Addaswyd yn Enetig: Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd

4.3 Adolygiad Blynyddol o'r Rheolau ar Fewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

4.4 Bil drafft Cymru: Gohebiaeth gan y Llywydd

4.5 Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru: Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

4.6 Y broses o benodi cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymateb gan Brif Weinidog Cymru

4.7 Cyfoeth Naturiol Cymru - Rhaglen Forol: Crynodeb o Gynllun Gwaith 2015-2016

4.8 Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio Heb Greulondeb: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

4.9 Ansawdd dŵr yng Nghymru: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

4.10 Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

4.11 Cysylltedd grid a datblygiad ynni adnewyddadwy morol ar Ynys Môn: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

4.12 Adroddiad annibynnol teithio llesol - Yr Athro Stuart Cole: Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth